



Department
for Environment,
Food & Rural Affairs

Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA) Adroddiad blynyddol cyntaf

1 Gorffennaf 2024 i 30 Mehefin 2025

Rhagfyr 2025

Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydym hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sydd gyda'r gorau yn y byd.

Adran weinidogol yw Defra, a gefnogir gan 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn asca@defra.gov.uk.

Cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb gweithredol	6
Cefndir	7
Y sector llaeth	7
Rôl yr ASCA	8
Rhyngweithio â Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser (GCA)	8
Amcanion strategol	10
1. Hyrwyddo tegwch mewn perthnasoedd y gadwyn gyflenwi	11
2. Gorfodi cydymffurfio â Rheoliadau Delio'n Deg	14
3. Cefnogi newid ymddygiad ar draws y sector	14
4. Magu hyder drwy fod yn dryloyw ac yn atebol	15
5. Darparu proses gwyno ddibynadwy a hygyrch	15
6. Llywio datblygiad polisi yn y dyfodol	16
Edrych ymlaen	16
Rheoliadau Rhwymedigaethau Delio'n Deg (Moch) 2025	17
Casgliadau	19
Cyfeiriadau	20

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA). Mae'r adroddiad hwn yn garreg filltir bwysig yn ein taith, sy'n cwmpasu'r flwyddyn lawn gyntaf (1 Gorffennaf 2024 i 30 Mehefin 2025) o weithredu ar gyfer Swyddfa'r ASCA, a sefydlwyd i orfodi Rheoliadau Rhwymedigaethau Delio'n Deg (Llaeth) 2024 (FDOM).

Rwy'n ymwybodol iawn adeg paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn ddiwedd 2025, bod sector llaeth y DU yn wynebu pwysau sylweddol gan gyflenwadau byd-eang o farchnadoedd llaeth a nwyddau, gan arwain at bwysau sydyn a phendant ar i lawr ar brisiau llaeth sy'n cael eu talu wrth gât y fferm.

Nid yw Rheoliadau FDOM, wrth gwrs, yn rheoleiddio prisiau – ffactorau byd-eang a lleol sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw fydd y prif ffactorau a fydd yn parhau i effeithio ar newidiadau i'r pris y mae ffermwyr llaeth yn ei gael am laeth. Ond mae FDOM yn cyflwyno rhwymedigaethau newydd pwysig ar brynwyr llaeth i sicrhau tryloywder a thegwch o ran sut mae newidiadau mewn prisiau'n cael eu rhoi ar waith yn unol â rhwymedigaethau'r contract.

Yn benodol, mae FDOM yn rhoi'r hawl i ffermwyr ofyn am esboniad ysgrifenedig o sut penderfynwyd ar bris y llaeth o dan y contract os nad yw'n glir pam mae pris llaeth wedi newid, ac o faint. Mae FDOM yn ei gwneud yn ofynnol i brynwr llaeth ddarparu esboniad ysgrifenedig o'r fath o fewn 7 diwrnod. Os na fyddant yn gwneud hynny, gall ffermwr gyflwyno cwyn i'm swyddfa ymchwilio iddi.

Mae'r sylwebaeth bresennol yn awgrymu y bydd y misoedd nesaf yn parhau'n heriol i'r diwydiant o ran sut mae'n ymateb i farchnadoedd nwyddau sy'n newid, sut mae pob parti yn y gadwyn gyflenwi yn ymateb ac yn trin ei gilydd yn deg, a sut mae newidiadau neu addasiadau cytundebol yn cael eu cyfleu a'u rhoi ar waith.

Byddaf yn parhau i wrando ar y rheini y mae'r newidiadau'n effeithio arnynt ac yn sicrhau bod y diwydiant yn cadw at y mesurau amddiffyn ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar waith gan FDOM. Os oes unrhyw un yn credu nad yw hynny wedi digwydd, gallant gysylltu â'm swyddfa'n uniongyrchol ar asca@defra.gov.uk, neu drwy ein sianel gyfrinachol asca-in-confidence@defra.gov.uk, er mwyn i ni ymchwilio i'r mater.

Cyflwynwyd rheoliadau FDOM i hyrwyddo tegwch a thryloywder mewn cadwyni cyflenwi amaethyddol, gan ddechrau yn y sector llaeth. O fis Awst 2025 ymlaen, cyflwynwyd rheoliadau yn y sector moch, gyda chynlluniau i ddilyn rheoliadau tebyg mewn sectorau eraill.

Mae'r ASCA, sy'n gweithredu ar ran Ysgrifennydd Gwladol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yn cyflawni swyddogaethau gorfodi o dan y rheoliadau. Bydd yr ASCA yn ymchwilio i gwynion perthnasol am gontractau llaeth neu brynu moch a godir gan gynhyrchwyr. Pan fydd yr ASCA yn canfod bod prynwr wedi methu cydymffurfio â gofyniad

o dan y rheoliadau, gall yr ASCA ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu cosb sifil, iawndal neu'r ddau.

Mae ein blwyddyn gyntaf yn ymwneud â chychwyn newydd. Sefydlu swyddfa newydd a tîm newydd wedi'i wreiddio yn ein hegwyddorion craidd – bod yn ddiduedd, yn ddibynadwy, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar y defnyddiwr. Codi ymwybyddiaeth o set newydd o rwymedigaethau yn y sector llaeth a sicrhau bod cynhyrchwyr a phrynwyr yn barod i addasu i'r gofynion newydd a ddaw yn eu sgil. Meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol ar draws partneriaid yn y diwydiant a rhanddeiliaid ehangach er mwyn gallu codi materion (a'u datrys gobeithio) cyn gynted â phosibl.

O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi mynd ati i herio ein hunain ar y ffordd orau o helpu i hyrwyddo tegwch a thryloywder mewn cadwyni cyflenwi amaethyddol, gan groesawu arloesedd a syniadau newydd, a sicrhau gwerth i'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r adolygiad hwn yn cyfleu hanes ein cychwyn newydd: y sylfeini cryf rydym wedi'u gosod, y partneriaethau rydym wedi'u creu, a'r nodau rydym wedi'u dilyn.

Wrth edrych yn ôl ar ein blwyddyn gyntaf, rwy'n hynod ddiolchgar i gydweithwyr am yr egni, y gwynwch a'r ymroddiad sydd wedi diffinio ein tîm ASCA ac wedi siapio ein cynnydd cynnar.

Hoffwn ddiolch i chi hefyd am y croeso cynnes rydw i wedi'i gael gan gynhyrchwyr, prynwyr a llawer o bobl eraill ar draws y diwydiant. Fel rhywun sy'n newydd i'r sector amaethyddol, rwy'n hynod ddiolchgar am yr amser, yr amynedd a'r arbenigedd y mae cynifer wedi'i rannu i helpu i sicrhau bod yr ASCA mewn sefyllfa dda i sbarduno tryloywder a thegwch mewn perthnasoedd y gadwyn gyflenwi.



Richard Thompson

Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol

Rhagfyr 2025

Crynodeb gweithredol

Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn cofnodi cynnydd Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA) yn ei flwyddyn gyntaf o weithredu, gan hyrwyddo tegwch a thryloywder ar draws cadwyni cyflenwi amaethyddol y DU. Mae'r ffocws cychwynnol wedi bod ar y sector llaeth, gyda datblygiadau yn y sector moch (a ddaeth i rym ym mis Awst 2025) i'w nodi mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Dros y 12 mis diwethaf, mae tîm yr ASCA wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ledled y DU – gan gynnwys cynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr a chyrff masnach – i feithrin gwelededd, ymddiriedaeth a chydweithio.

Roedd y flwyddyn weithredol gyntaf yn adlewyrchu'r cyfnod pontio yn y rheoliadau newydd, sy'n golygu mai dim ond i'r mwyafrif helaeth o gytundebau presennol o fis Gorffennaf 2025 ymlaen yr oedd pwerau ffurfiol yn berthnasol. Er na dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod pontio sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn, darparodd yr ASCA gyngor a chymorth anffurfiol i amrywiaeth eang o gynhyrchwyr a phroseswyr wrth i'r dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio agosáu. Roedd hyn yn cynnwys sianel 'gyfrinachol' newydd i sicrhau y gallai cynhyrchwyr godi materion heb ofni cael eu hadnabod na chael eu cosbi.

Mae'r adborth hwn wedi cael ei ddefnyddio i lywio gwaith yr ASCA yn y dyfodol ac mae adborth penodol a dienw wedi cael ei rannu â'r diwydiant fel y bo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu cynnydd, yn rhannu gwybodaeth gan randdeiliaid, ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y dyfodol wrth i'r ASCA baratoi i ehangu ei gylch gwaith i sectorau eraill.

Cefndir

Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo o hyd i adeiladu system fwyd fwy cynaliadwy a chydnerth – un sy'n hyrwyddo tegwch, sicrwydd rheoleiddiol, a thwf sectoraidd. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r llywodraeth yn cefnogi gwaith Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser (GCA), sy'n goruchwyllo'r berthynas rhwng manwerthwyr bwyd mwyaf y wlad a'u cyflenwyr uniongyrchol, drwy orfodi Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Groser (GSCOP).

Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr amaethyddol yn cyflenwi manwerthwyr yn uniongyrchol, ac felly roedd Cais am Dystiolaeth 2016 yn edrych ar y posibilrwydd o ehangu'r GCA ar draws y gadwyn gyflenwi. Canfu'r adolygiad nad oedd digon o dystiolaeth o fethiannau eang yn y farchnad i gefnogi gwneud hynny, gan awgrymu bod angen rheoliadau cymesur wedi'u targedu i ddiogelu cynhyrchwyr cynradd. Felly, cyflwynodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 bwerau Adran 29, 'Delio'n Deg', sy'n awdurdodi'r Ysgrifennydd Gwladol i reoleiddio arferion contract rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr amaethyddol.

Mae'r llywodraeth wedi mynd ati fesul sector i ddefnyddio'r pwerau hyn, gan arwain at reoliadau sy'n mynd i'r afael â materion penodol. Rheoliadau Rhwymedigaethau Delio'n Deg (Llaeth) 2024 (FDOM), sy'n berthnasol i sector llaeth y DU, oedd y tro cyntaf i'r pwerau gael eu defnyddio.

Mae FDOM yn gam allweddol yn rhaglen ehangach Defra i wella tegwch y gadwyn gyflenwi ar draws y sector ffermio. Bwriad y rheoliadau yw mynd i'r afael ag anghydbwysedd dwfn o ran grym yn y gadwyn gyflenwi llaeth, lle mae cynhyrchwyr unigol yn aml yn gweithredu dan anfantais i brynwyr cyfunol iawn. Drwy fynnu bod contractau ysgrifenedig yn cynnwys telerau wedi'u diffinio'n glir – sy'n ymwneud â phrosesau priso, niferoedd, hyd a datrys anghydfodau – mae FDOM yn ceisio gwella tryloywder, atal arferion masnachu annheg, a meithrin cysylltiadau masnachol mwy cynaliadwy.

Mae'r rheoliadau'n cael eu gorfodi gan yr ASCA, sy'n darparu goruchwyliaeth a llwybr ar gyfer cwynion.

Daeth y rheoliadau moch i rym ar 13 Awst 2025, hefyd gyda chyfnod pontio o 12 mis.

Gosododd FDOM gysail reoleiddio ar gyfer y sector llaeth ac mae'n adlewyrchu dull sector wrth sector Defra o gryfhau mesurau amddiffyn cynhyrchwyr a gwreiddio tegwch mewn cadwyni cyflenwi amaethyddol.

Y sector llaeth

Y sector llaeth yw sector ffermio mwyaf y DU ac mae'n cyfrif am 19% o gyfanswm allbwn amaethyddol y DU yn 2020ⁱ. Yn 2023, roedd y DU yn rhif 11 yn rhestr cynhyrchwyr llaeth mwyaf y byd, a'r trydydd mwyaf yn Ewrop y tu ôl i'r Almaen a Ffraincⁱⁱ. Mae cynhyrchu llaeth yn y DU yn werth rhwng £5bn a £6bn ar lefel fferm a llawer mwy na hynny unwaith y

mae'n cael ei brosesu i'w ddefnyddio fel llaeth hylif neu ar gyfer amrywiaeth o nwyddau llaeth (15bn litr ar 30 i 45c y litr).

Mae oddeutu 9,500 o ffermwyr llaeth yn cyflogi oddeutu 50,000 o bobl ar y fferm ac mewn diwydiannau ategol – cyflogir degau o filoedd yn rhagor ym maes prosesu a dosbarthuⁱⁱⁱ.

Rôl yr ASCA

Mae'r ASCA yn ymchwilio i gwynion gan gynhyrchwyr ynghylch contractau nad ydynt yn cydymffurfio â'r FDOM. Pan welir achosion o dorri amodau, gall yr ASCA osod cosbau sifil – hyd at 1% o drosiant y prynwr – a mynnu iawndal. Gellir adennill y cosbau hyn fel dyledion a'u talu i gronfa gyfunol y llywodraeth.

Bydd rheoliadau'r FDOM yn cael eu hadolygu o fewn 5 mlynedd i'w cyflwyno ac o leiaf bob 5 mlynedd ar ôl hynny, gan sicrhau ymgysylltiad a chydymffurfiaeth barhaus â'r diwydiant.

Fodd bynnag, mae rôl yr ASCA yn ymestyn y tu hwnt i ddelio â chwynion ffurfiol. Mae'r ASCA hefyd yn canolbwyntio ar wella tegwch a thryloywder mewn cadwyni cyflenwi drwy annog arferion gorau a chefnogi datrys problemau'n gynnar. Drwy ymgysylltu'n rheolaidd â chynhyrchwyr, prynwyr a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant, ei nod yw meithrin ymddiriedaeth, codi ymwybyddiaeth o rwymedigaethau cytundebol, a hyrwyddo ymddygiad cytundebol cyfrifol.

Drwy weithredu fel llais credadwy a diduedd, mae'r ASCA yn ceisio mynd i'r afael â phryderon cyn iddynt waethgu – gan helpu i atal anghydfodau a meithrin cadwyn gyflenwi gryfach, fwy effeithlon a mwy cydweithredol. Er bod pwerau gorfodi yn dal yn adnodd pwysig i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio, y flaenoriaeth yw gweithio'n adeiladol gyda'r sector i sbarduno newid cadarnhaol a chyflawni gwelliannau hirdymor.

Rhyngweithio â Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser (GCA)

Mae Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser (GCA) yn rheoleiddiwr annibynnol yn y DU sy'n gyfrifol am oruchwylio'r berthynas rhwng manwerthwyr bwyd mwyaf y wlad a'u cyflenwyr uniongyrchol. Mae'n gweithio gyda'r Adran Busnes a Masnach.

Mae'r GCA yn sicrhau'r canlynol:

- gorfodi'r Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Groser, sy'n sicrhau bod archfarchnadoedd mawr yn trin cyflenwyr yn deg
- ymchwilio i gwynion ac yn gallu lansio ymchwiliadau ffurfiol i achosion o dorri'r Cod (fel oedi cyn talu neu ddadrestru annheg)
- cyflafareddu mewn anghydfodau rhwng adwerthwyr a chyflenwyr
- cyhoeddi canllawiau ac arferion gorau i helpu manwerthwyr i gydymffurfio â'r Cod

- monitro cydymffurfiaeth drwy arolygon ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

Er bod yr ASCA a'r GCA yn gweithio i hyrwyddo tegwch yn y gadwyn cyflenwi bwyd, mae eu rolau'n wahanol. Mae'r GCA yn goruchwyllo'r berthynas rhwng manwerthwyr mawr a'u cyflenwyr uniongyrchol o dan y Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Groser, gan ganolbwyntio ar ochr adwerthu'r gadwyn. Tra mae'r ASCA yn gyfrifol am sicrhau bod cynhyrchwyr a phrynwyr yn y sector amaethyddol yn delio'n deg â'i gilydd, gan ddechrau gyda'r sectorau llaeth a moch.

Fodd bynnag, mae'r ASCA yn gweithio'n agos gyda'r GCA i rannu gwybodaeth, cysoni dulliau gweithredu lle bo hynny'n briodol, a hyrwyddo mwy o dryloywder ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan. Mae'r ASCA a'r GCA ynghyd â swyddogion yn y ddwy swyddfa yn cwrdd yn rheolaidd i drafod datblygiadau yn eu meysydd a, lle bo hynny'n briodol, i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth. Siaradodd yr ASCA hefyd yng Nghynhadledd Flynyddol y GCA ym mis Hydref 2024 i gyflwyno'r rheoliadau newydd ar ddelio'n deg a gwaith swyddfa'r ASCA.

Amcanion strategol

Mae gwaith yr ASCA yn seiliedig ar 6 amcan strategol:

1. **Hyrwyddo tegwch yn y gadwyn gyflenwi**
Sicrhau bod y berthynas contractiol rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr yn deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw.
2. **Gorfodi cydymffurfio â Rheoliadau Delio'n Deg**
Monitro a gorfodi'r Rheoliadau Rhwymedigaethau Delio'n Deg gan ddefnyddio offer gorfodi cymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
3. **Cefnogi newid ymddygiad ar draws y sector**
Annog arferion gorau a newid diwylliannol ymysg prynwyr drwy arweiniad, ymgysylltu, a hyrwyddo ymddygiad masnachu cyfrifol.
4. **Darparu proses gwyno ddibynadwy a hygyrch**
Cynnig dull cyfrinachol, diduedd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i gynhyrchwyr godi pryderon a cheisio iawn lle mae amheuaeth o arferion annheg.
5. **Meithrin hyder drwy fod yn dryloyw ac yn atebol**
Adrodd ar weithgareddau, cyhoeddi canfyddiadau, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynnal ymddiriedaeth yn rôl ac effeithiolrwydd yr ASCA.
6. **Llywio datblygiad polisi yn y dyfodol**
Defnyddio gwybodaeth o waith achos ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i gefnogi Defra i ddatblygu rheoliadau delio'n deg ar gyfer sectorau amaethyddol eraill.

Er mwyn cyflawni'r amcanion strategol hyn, mae gan yr ASCA hefyd set graidd o werthoedd sy'n cefnogi ei genhadaeth i gynnal tegwch, tryloywder ac atebolrwydd ar draws y cadwyni cyflenwi amaethyddol perthnasol – sy'n canolbwyntio ar y sectorau llaeth a moch ar hyn o bryd.

- **Diduedd:** Gweithredu'n annibynnol a heb ragfarn, gan sicrhau bod pob parti'n cael ei drin yn deg ac yn unol â'r rheoliadau.
- **Ymddiriedaeth:** Meithrin hyder drwy wneud penderfyniadau cyson a thryloyw a thrwy gynnal safonau uchel o uniondeb.
- **Canolbwyntio ar y defnyddiwr:** Ymgysylltu'n adeiladol â chynhyrchwyr a phroseswyr fel ei gilydd, gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch.
- **Seiliedig ar dystiolaeth:** Sicrhau bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd â'r rheoliadau perthnasol.

Ochr yn ochr â'i nodau strategol, mae swyddfa'r ASCA yn cael ei harwain gan amcanion gweithredol sy'n sicrhau bod ei gwasanaeth yn effeithiol ac yn hygyrch. Mae'r ASCA wedi ymrwymo i hyrwyddo ei wasanaeth yn eang ar draws y gadwyn gyflenwi, gan ei gwneud yn hawdd i gynhyrchwyr a rhanddeiliaid ymgysylltu. Nod y swyddfa yw darparu

gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n llawn empathi ac yn amserol, yn enwedig o ran rheoli a datrys cwynion.

Mae'r ASCA wedi cyflawni ei waith craidd dros y 12 mis diwethaf drwy'r gwerthoedd a'r amcanion strategol a gweithredol hyn.

1. Hyrwyddo tegwch mewn perthnasoedd y gadwyn gyflenwi


Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a pharodrwydd ar draws y sector llaeth, mae'r ASCA wedi cymryd rhan mewn dros 60 o gyfarfodydd, digwyddiadau ac ymweliadau ar draws y pedair gwlad; gan annog deialog a meithrin perthnasoedd dibynadwy.

Cynigiwyd cyngor anffurfiol hefyd i gynhyrchwyr a phroseswyr sydd wedi cysylltu â'r ASCA gyda chwestiynau a phryderon cyn i'r rheoliadau ddod i rym. Mae'r gweithgareddau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr ASCA i orfodi rheoliadau delio'n deg a chefnogi newidiadau ar draws y sector.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol:

- ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU:
 - dros 30 o gyfarfodydd unigol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cynhyrchwyr, proseswyr, cyrff masnach ac undebau
 - 36 o ymweliadau â gwahanol ddigwyddiadau gan gynnwys sioeau amaethyddol, ymweliadau â ffermydd, seminarau a chynadleddau
 - 1 bwrdd crwn
 - 3 gweminar, seminar neu banel holi ac ateb
- cwynion ffurfiol a dderbyniwyd: 0
- problemau a ddaeth i law yn gyfrinachol: 9
- arolygon a gynhaliwyd: 1

Map o weithgareddau ymgysylltu ledled y DU



Mae'r map yn dangos lleoliadau lle bu'r ASCA yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod ei flwyddyn gyntaf o weithredu, gan gynnwys 19 o weithgareddau yn Lloegr, 4 yn yr Alban, 1 yng Nghymru, a 3 yng Ngogledd Iwerddon.

Arolwg o'r sector llaeth

Cynhaliodd yr ASCA arolwg ym mis Mawrth 2025 i asesu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chanfyddiadau rhanddeiliaid o FDOM. Roedd yr arolwg hefyd yn edrych ar y rhwystrau rhag gwneud cwynion ac yn casglu adborth ansoddol gan gynhyrchwyr.

Rhannwyd yr arolwg ag amrywiaeth o randdeiliaid ar draws y gadwyn gyflenwi. Cafwyd dros 80 o ymatebion, gyda chynhyrchwyr yn cynrychioli 62% o'r ymatebwyr. Wrth i'r

ymgysylltu barhau, ac wrth i ymwybyddiaeth o'r ASCA gynyddu, rydym yn rhagweld y bydd nifer yr ymatebwyr yn cynyddu mewn arolygon yn y dyfodol.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Roedd ymwybyddiaeth gyffredinol o'r ASCA yn gymharol uchel, gyda:

- 78% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r ASCA cyn cael yr arolwg
- 42% wedi cwrdd â'r Dyfarnwr
- roedd 62% yn cytuno y byddai'r rheoliadau'n gwella tegwch
- roedd 81% yn credu y byddent yn gwella tryloywder wrth ddelio â chontractau

Roedd ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad yn is ymysg cynhyrchwyr yn benodol:

- roedd 63% yn ymwybodol o'r ASCA cyn cael yr arolwg
- roedd 31% wedi cwrdd â'r Dyfarnwr
- roedd 53% yn credu y byddai'r rheoliadau'n gwella tegwch
- roedd 71% yn credu y byddent yn gwella tryloywder wrth ddelio â chontractau

Rhwystrau rhag gwneud cwynion

Roedd yr arolwg yn tynnu sylw at nifer o rwystrau a oedd yn atal cynhyrchwyr rhag cwyno:

- roedd 65% yn ddihyder ynghylch a oedd eu cwyn yn berthnasol (sy'n golygu un y gellid delio â hi o dan y rheoliadau newydd)
- roedd 78% yn ofni achosi niwed i'w henw da
- roedd 84% yn ofni cael eu cosbi neu y byddent yn colli contractau yn y dyfodol

Roedd pryderon ychwanegol yn cynnwys ofn cwyno am brisiau llaeth, ofn i'w contract gael ei derfynu, taliadau prosesydd annigonol, dibyniaeth ar gysylltiadau cytundebol presennol a diffyg anhysbysrwydd yn y broses gwyno.

Casgliadau'r arolwg

Tynnodd yr arolwg sylw at ymwybyddiaeth gynyddol o'r ASCA a'r rheoliadau, ond hefyd at fylchau sylweddol mewn dealltwriaeth a hyder, yn enwedig ymysg cynhyrchwyr. Mae ofn cael eu cosbi a chyfyngiadau strwythurol yn rhwystrau mawr rhag ymgysylltu.

I fynd i'r afael â hyn, lansiodd swyddfa'r ASCA flwch post cyfrinachol (asca-in-confidence@defra.gov.uk) i ganiatáu i randdeiliaid fynegi pryderon yn gyfrinachol.

Er bod yr ASCA yn gofyn am gŵyn ffurfiol er mwyn agor ymchwiliad ffurfiol, mae'r sianel hon yn darparu ffordd werthfawr i'r Dyfarnwr ddeall y materion y mae cynhyrchwyr yn eu hwynebu, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a helpu i siapia gweithgarwch yn y dyfodol. Lle bo'n bosibl gwneud hynny heb ddatgelu'r ffynhonnell, bydd yr ASCA hefyd yn rhannu adborth â diwydiant a phroseswyr penodol am y materion sy'n peri pryder i'w cyflenwyr.

2. Gorfodi cydymffurfio â Rheoliadau Delio'n Deg

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cyfnod pontio yn yr FDOM, pan oedd y rheolau newydd ond yn berthnasol i contractau newydd sbon. Roedd y contractau presennol yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau newydd o fis Gorffennaf 2025 ymlaen. O'r herwydd, mae'r ASCA wedi canolbwyntio yn ystod y flwyddyn gyntaf hon ar feithrin ymgysylltiad rhagweithiol a chefnogi rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer cydymffurfio'n llawn.

3. Cefnogi newid ymddygiad ar draws y sector

Mae'r ASCA yn gweld elfen graidd o'i rôl fel llais y gellir ymddiried ynddo ar draws y sectorau y mae'n gweithredu ynddynt. Mae rôl a safle unigryw yr ASCA yn caniatáu iddo 'ddarparu drych' i'r sector fel bod partïon yn ymwybodol o oblygiadau ymddygiad ac arferion cyfredol a bod modd rhagweld problemau a'i hosgoi.

Mae'r ASCA yn bwriadu cynnal cyfarfodydd 'bwrdd crwn' rheolaidd gydag aelodau allweddol o'r sectorau y mae'n eu gorfodi i gydymffurfio. Ochr yn ochr â chyfarfodydd rheolaidd â'r diwydiant drwy gydol y flwyddyn, bwriedir i gyfarfodydd bwrdd crwn fod yn lle diogel i'r ASCA ddatgelu'r hyn y mae'n ei glywed a'i weld ar draws y sector. Mae hefyd yn gyfle i'r sector roi adborth ar sut mae'r ASCA yn gweithredu. Y cyfarfod bwrdd crwn ar laeth, a gynhaliwyd ym mis Mai 2025, oedd y cyntaf o'r digwyddiadau hyn.

Gwybodaeth am y cyfarfod trafod llaeth

Daeth y cyfarfod bwrdd crwn i drafod llaeth â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i drafod cynnydd tuag at gydymffurfio â rheoliadau a meithrin diwylliant o fod yn agored. Un canlyniad allweddol oedd ymrwymiad gan y grŵp i ddatblygu 'Egwyddorion Ymddygiad' sy'n cael eu harwain gan y sector i wella'r berthynas rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr a lleihau'r ofnau presennol ynghylch codi pryderon neu gwynion. Roedd syniadau'n cynnwys cael cysylltiadau 'annibynnol' penodol ym mhob sefydliad i ddelio â chwynion, gan gynnwys crynodeb o delerau contract allweddol mewn dogfennau perthnasol, a sut i ymgorffori materion sy'n esblygu mewn contractau yn y dyfodol sy'n ymdrin â meysydd fel cynaliadwyedd, iechyd a lles.

Roedd myfyrdodau'r ASCA yn sgil ei flwyddyn gyntaf yn gweithredu yn y sector llaeth yn cynnwys:

- pryderon a fynegwyd gan gynhyrchwyr ynghylch codi materion gyda'r ASCA rhag ofn y bydd canlyniadau negyddol neu gosbau gan brynwyr
- diffyg ymwybyddiaeth o'r rheoliadau, a chamddealltwriaeth o'r hyn y gall ac na all y rheoliadau a'r ASCA ei wneud
- ymddygiad tua diwedd y cyfnod pontio rheoleiddiol a'r diffyg amser neu rybudd a roddir i gynhyrchwyr gan rai proseswyr

- sylwadau ar ddefnyddio cytundebau ochr cytundebol a'u perthynas â chontractau prynu llaeth craidd

Roedd pwyntiau trafod eraill yn cynnwys:

- sut i sicrhau bod proseswyr yn deall eu rhwymedigaethau
- heriau wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid anodd eu cyrraedd
- arddangos arferion gorau a datblygu astudiaethau achos
- yr angen am fwy o ymgysylltu wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl

Roedd cydnabyddiaeth ar y cyd bod y rheoliadau newydd yn y sector llaeth yn cael eu hystyried yn brawf gan sectorau eraill ac felly'n gyfle i ddangos llwyddiant o ran meithrin ymddiriedaeth a thryloywder.

4. Magu hyder drwy fod yn dryloyw ac yn atebol

Mae'r ASCA wedi rhoi pwyslais cryf ar ymgysylltu rhagweithiol i feithrin ymddiriedaeth, codi ymwybyddiaeth, a chefnogi newid ar draws y sector llaeth. Drwy gyfarfodydd â chynhyrchwyr a phrynwyr, cymryd rhan mewn digwyddiadau allweddol yn y diwydiant, a lansio blwch post "ASCA in Confidence", mae'r ASCA wedi ceisio sefydlu presenoldeb dibynadwy a gweladwy. Roedd y cyfarfod bwrdd crwn cyntaf ar laeth, a gynhaliwyd ym mis Mai 2025, yn garreg filltir bwysig o ran meithrin deialog a chydweithio agored. Mae ymgysylltu rheolaidd â Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser wedi cryfhau ymhellach ddull yr ASCA o hyrwyddo tegwch a thryloywder.

Mae adborth o'r digwyddiadau ymgysylltu hyn wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio dealltwriaeth yr ASCA o ddeinameg y sector a heriau rheoleiddiol yn ogystal â helpu i feithrin ymddiriedaeth yn y sectorau.

5. Darparu proses gwyno ddibynadwy a hygyrch

Mae'r ASCA wedi sefydlu trefn gwyno dryloyw, gymesur a hygyrch sy'n cefnogi cwynion ffurfiol a chysylltiadau/ymholiadau anffurfiol drwy sianel 'gyfrinachol'. Mae'r ASCA yn ceisio defnyddio iaith syml ar draws yr holl ohebiaeth ac nid yw'n ofynnol i gynhyrchwyr/proseswyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol i ddefnyddio'r gwasanaeth – er y gallant benodi rhywun i'w cynrychioli os ydynt yn dymuno.

Er na ddaeth unrhyw gwynion ffurfiol i law yn ystod y cyfnod adrodd, mae cynhyrchwyr wedi codi nifer o bryderon gyda'r ASCA drwy sianeli anffurfiol, gan gynnwys:

- ofn y bydd contract yn cael ei derfynu neu y bydd enw da'r ymgeisydd yn cael ei niweidio
- effaith prinder opsiynau cyflenwi mewn rhai rhanbarthau
- ofnau ynghylch diffyg cyfrinachedd o ran y drefn gwyno
- ansicrwydd ynghylch beth yw cwyn ddilys

- diffyg amser i adolygu contractau newydd neu amrywiadau
- pryderon ynghylch prisio haenog
- effaith y diwygiad i'r rheoliadau yng nghyswllt grwpiau cydweithredol
- diffyg eglurder ynghylch dyddiadau casglu llaeth, telerau talu a'r cyfnod pwylo o 21 diwrnod

Bydd y mewnwelediadau hyn yn llywio dull yr ASCA o ddelio â chwynion a chanllawiau neu ymgysylltiad â'r diwydiant yn y dyfodol. Er enghraifft, o ganlyniad i bryderon a godwyd ynghylch y dulliau rhyngweithio rhwng cymalau terfynu mewn contractau a gofynion presennol pan ddaw'r rheoliadau newydd i rym, roedd yr ASCA yn gallu cyhoeddi nodyn cyfarwyddyd i egluro sut y dylai rhanddeiliaid fwrw ymlaen.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'r ASCA hefyd wedi gallu cynnal trafodaethau anffurfiol a chyfrinachol gyda phartion i ddatrys materion yn gynnar ac osgoi'r angen i godi cwyn ffurfiol.

6. Llywio datblygiad polisi yn y dyfodol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ASCA wedi cael gwybodaeth werthfawr sy'n helpu i lywio datblygiad polisi Defra yn y dyfodol. Drwy ymgysylltu'n barhaus â chynhyrchwyr, proseswyr a chyrrff y diwydiant, mae'r ASCA wedi nodi heriau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg – llawer ohonynt wedi cael eu rhannu'n uniongyrchol â thimau polisi Defra i gefnogi'r gwaith o lunio polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er mwyn sicrhau bod pwerau gorfodi ffurfiol a datblygiad polisi'r ASCA yn parhau'n wahanol, mae'r ASCA wedi sicrhau bod 'waliau papur' priodol rhwng ei dîm a chydweithwyr mewn timau polisi. Er bod hyn yn sicrhau gwahanu gweithredol ac annibyniaeth ym mhenderfyniadau'r ASCA, mae cyfathrebu dwyffordd rheolaidd yn sicrhau bod gwybodaeth weithredol yn cael ei bwydo'n rheolaidd i dimau polisi. Er enghraifft, darparodd yr ASCA adborth ymarferol a gweithredol wrth ddatblygu Rheoliadau Rhwymedigaethau Delio'n Deg (Moch) 2025 (FDOP) a gyflwynwyd yn ddiweddar, gan helpu i sicrhau eu bod yn glir ac yn effeithiol mewn egwyddor, yn ogystal ag yn ymarferol.

Edrych ymlaen

Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf (1 Gorffennaf 2025 i 30 Mehefin 2026), bydd yr ASCA yn parhau i gryfhau ei safle fel llais dibynadwy ac annibynnol ar draws y gadwyn gyflenwi amaethyddol. Carreg filltir allweddol fydd ehangu ei gylch gwaith i gynnwys y sector moch o dan y FDOP, a ddaeth i rym ym mis Awst 2025.

Gan adeiladu ar y sylfeini cryf a osodwyd yn y sector llaeth, bydd y ffocws yn parhau ar ddyfnhau perthnasoedd, annog deialog a cheisio datrys materion yn gyflym pan fyddant yn dod i'r amlwg.

Yn ogystal â datrys unrhyw gwynion ffurfiol ac ymateb i gwestiynau a materion a godir drwy'r sianel 'yn gyfrinachol', bydd gweithgareddau allweddol y flwyddyn ganlynol yn cynnwys:

- ehangu i gynnwys y sector moch (FDOP, wedi dod i rym ym mis Awst 2025)
- atgynhyrchu gweithgareddau ymgysylltu o'r sector llaeth
- parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r ddau sector drwy ddigwyddiadau a chyfarfodydd dwyochrog
- cynnal arolwg dilynol i asesu ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o FDOM ac FDOP2
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cod Egwyddorion dan arweiniad y sector yn y sector llaeth
- cynnal yr ail drafodaeth bwrdd crwn ar laeth a'r drafodaeth bwrdd crwn gyntaf ar foch yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd cyffredinol y dull hwn

Rheoliadau Rhwymedigaethau Delio'n Deg (Moch) 2025

O 13 Awst 2025, daeth y rheoliadau moch i rym, sy'n berthnasol i bob contract newydd ar gyfer prynu moch, gyda chyfnod pontio o 12 mis ar gyfer cytundebau presennol.

Mae tîm yr ASCA eisoes wedi dechrau ymgysylltu'n benodol â sector moch y DU a bydd hynny'n cynyddu dros y misoedd nesaf. Mae'r diwydiant o werth economaidd a strategol sylweddol. Mae diwydiant moch y DU werth £1.6 biliwn wrth gât y fferm, £5 biliwn wrth fanwerthu, ac yn cyfrannu dros £14 biliwn wrth gynnwys gwasanaeth bwyd, gwerthiannau allanol, ac allforion^{iv}.

Yn 2024, arhosodd cyfanswm nifer y moch yn y DU yn gymharol sefydlog ar 4.7 miliwn o anifeiliaid. Gostyngodd niferoedd y moch bridio 1.7% i 421 mil o anifeiliaid, tra cododd niferoedd y moch magu 0.9%^v.

Fodd bynnag, mae'r sector yn parhau i wynebu pwysau sylweddol yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r rhain yn cynnwys prinder llafur mewn cyfleusterau prosesu, gan arwain at ôl-groniadau o foch ar ffermydd, a chostau mewnbwn cynyddol – yn enwedig o ran porthiant ac ynni – sydd wedi gwasgu maint elw cynhyrchwyr.

Daeth canlyniadau'r pwysau hyn a'r anghydbwysedd rhwng cynhyrchwyr a phroseswyr moch i ben yn 2021 i 2022. Arweiniodd ffactorau cysylltiedig, gan gynnwys diffyg cigyddion medrus mewn gweithfeydd prosesu a gostyngiad yn y galw am allforio, at orgyflenwad o foch yn y farchnad a phwysau ar gapasiti prosesu. Pan nad oedd proseswyr yn gallu cyflawni eu cytundebau i brynu, roedd llawer o ffermwyr yn teimlo nad oedd ganddynt fawr o hawliau gan mai dim ond cytundebau cyflenwi anffurfiol oedd ganddynt.

Felly, lansiodd Defra ymgynghoriad gyda'r sector yn 2022, gan archwilio'r angen am ymyriad rheoleiddiol. Roedd y Crynodeb o'r Ymatebion, a gyhoeddwyd yn 2023, yn cadarnhau'r gofyniad am reoliadau, gan dynnu sylw at faterion penodol gan gynnwys yr angen am sicrwydd ynghylch maint y cyflenwad a chanlyniadau methu eu bodloni. Ers

hynny, mae FDOP wedi cael ei ddatblygu drwy ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant, gan sicrhau eu bod yn ystyried anghenion penodol y sector moch.

Bydd yr ASCA yn cefnogi'r sector pwysig hwn drwy ymdrechu i sicrhau tryloywder a thegwch yn y gadwyn gyflenwi.

Casgliadau

Flwyddyn ar ôl dechrau'r rheoliadau llaeth, mae ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth yn cynyddu, ond gellid gwella'r ddealltwriaeth o rôl yr ASCA a'r rheoliadau ymhellach. Bydd yr arolwg yn cael ei ailadrodd i fesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth barhaus o'r rheoliadau a rôl yr ASCA.

Mae'r sianel 'gyfrinachol' a lansiwyd gan yr ASCA wedi tynnu sylw at rai o'r prif bryderon a meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn i ddod.

I rai cynhyrchwyr, mae ofn wynebu cosbau dal yn rhwystr mawr rhag gwneud cwyn, ac mae angen i'r ASCA a'r diwydiant wneud mwy i helpu i feithrin ymddiriedaeth ar draws y sector a sicrhau bod cynhyrchwyr yn teimlo'n hyderus wrth godi materion a phryderon.

Gyda'r rheoliadau llaeth bellach yn berthnasol i'r holl gontractau presennol yn ogystal â chontractau newydd, rhagwelir ei bod yn llawer mwy tebygol y bydd materion a chwynion ffurfiol yn cael eu codi gyda'r ASCA yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd yr ASCA yn adrodd yn ffurfiol ar unrhyw gwynion a thueddiadau yn adolygiad y flwyddyn nesaf ond bydd hefyd yn ystyried cyfleoedd i rannu gwybodaeth ac adborth o'r materion a godwyd mewn ffyrdd newydd ac arloesol.

Bydd yr ASCA hefyd yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'n blwyddyn gyntaf o weithredu wrth i ni ymgorffori awdurdodaeth estynedig sy'n cwmpasu'r sector moch ac yn parhau i feithrin ymddiriedaeth a hyder wrth sicrhau cadwyni cyflenwi teg a thryloyw.

Cyfeiriadau

- i [Tystiolaeth Ffermio Defra 2024 \(yn Saesneg\)](#)
- ii [Ein Byd o ran Data \(yn Saesneg\)](#)
- iii [Nifer y cynhyrchwyr ym Mhrydain Fawr – AHDB \(yn Saesneg\)](#)
- iv [Cwestiynau Cyffredin – Y Gymdeithas Foch Genedlaethol \(yn Saesneg\)](#)
- v [Poblogaethau da byw yn y Deyrnas Unedig ar 1 Mehefin 2024 – GOV.UK \(yn Saesneg\)](#)